

**Gofynion Hylendid Bwyd
Anifeiliaid ar gyfer Ffermwyr
sy'n Cymysgu Ychwanegion a
Rhag-gymysgeddau yn
uniongyrchol mewn Bwyd
Anifeiliaid a Bwyd Anifeiliaid
Cyfansawdd gydag
Ychwanegion**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y canllawiau hyn — neu os oes angen yr wybodaeth arnoch mewn fformat gwahanol fel sain, print bras neu Braille – defnyddiwch yr wybodaeth gyswllt isod.

Crynodeb

Cynulleidfa darged:	<ul style="list-style-type: none"> Ffermwyr a thyfwyr
Ym mha wledydd yn y Deyrnas Unedig y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol?	Pob gwlad yn y DU.
Diben:	Darparu canllawiau ar ofynion Rheoliad 183/2005 ar hylendid bwyd anifeiliaid fel y maent yn berthnasol i ffermwyr da byw sy'n cymysgu ychwanegion ar y fferm.
Statws cyfreithiol:	Mae'r rhain yn ganllawiau rheoleiddiol sy'n manylu ar y gweithdrefnau y dylai gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid eu dilyn er mwyn cydymffurfio â Rheoliad 183/2005 ar hylendid bwyd anifeiliaid.
Geiriau allweddol	<ul style="list-style-type: none"> Ychwanegion ac atchwanegiadau Bwyd anifeiliaid Cyfraith bwyd, monitro a mesurau rheoli Hylendid a diogelwch bwyd
Dyddiad adolygu	Mae'r ddogfen hon yn gyfredol. Nid oes angen ei hadolygu oni bai bod y ddeddfwriaeth y mae'n berthnasol iddi yn cael
Dyddiad dirwyn i ben	Nid oes gan y ddeddfwriaeth UE dan sylw gymal machlud.

Hanes diwygio

Mae'r canllawiau hyn yn dilyn [Cod Ymarfer y Llywodraeth ar gyfer Canllawiau](#). Os ydych yn credu bod y canllawiau hyn yn mynd yn groes i'r Cod am unrhyw reswm, dylech roi gwybod i ni drwy anfon e-bost at betterregulation@food.gov.uk. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y canllawiau eu hunain, ffoniwch ni drwy'r rhif cyswllt ar dudalen 2, neu ewch ati i lenwi ein [Harolwg Canllawiau](https://www.surveymonkey.com/s/55QQDCG) parhaus: <https://www.surveymonkey.com/s/55QQDCG>

Rhif yr adolygiad	Dyddiad diwygio	Diben yr adolygiad a rhif y paragraff	Diwygio gan
1	Mawrth 2014	Diweddarau manylion cyswllt	Joseph Nicholas

Cynnwys

Hanes diwygio	4
Cynnwys	5
Cyflwyniad	6
Cynulleidfa Darged	6
Diben y Canllawiau.....	6
Statws Cyfreithiol y Canllawiau.....	7
Y Canllawiau	7
Deddfwriaeth Genedlaethol.....	11
Manylion Cysylltu.....	12

Cyflwyniad

1. Roedd Rheoliad CE 183/2005 ar 12 Ionawr 2005, sy'n gosod y gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid (Rheoliad Hylendid Bwyd Anifeiliaid), yn un o nifer o fesurau bwyd anifeiliaid a gynigiwyd ym Mhapur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar Ddiogelwch Bwyd ym mis Ionawr 2000. Mae'n cynnwys nifer o ddarpariaethau sydd â'r nod o wella diogelwch bwyd anifeiliaid, gan gynnwys rheolau i wella safonau gweithredol busnesau bwyd anifeiliaid a mesurau olrhain i sicrhau y gellir olrhain cynhyrchion bwyd anifeiliaid, neu eu galw yn ôl, yn hawdd mewn achos o ddigwyddiad halogiad bwyd anifeiliaid. Mae'r Rheoliad hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau bwyd anifeiliaid gael eu cofrestru a/neu eu cymeradwyo.
2. Roedd Rheoliad CE 1831/2003 ar 22 Medi 2003 ar ychwanegion i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid (Rheoliad Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid) yn diwygio ac yn diweddarau deddfwriaeth flaenorol ar ychwanegion bwyd anifeiliaid. Y prif bwytiau yw y dylid defnyddio ychwanegion awdurdodedig yn unig mewn bwyd anifeiliaid; y gellir defnyddio'r ychwanegion hyn at y dibenion penodol yn unig (oed a rhywogaeth yr anifail, lefel uchaf a ganiateir ac ati) sydd wedi'u gosod yn yr awdurdodiad; ac y bydd ychwanegion bwyd anifeiliaid newydd ond yn cael eu hawdurdodi yn dilyn gwerthusiad gwyddonol gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ar eu diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd. (Mae'r ffurflen a chynnwys y cais sydd angen ei gyflwyno i EFSA wedi'i nodi yn y Rheoliad.)

Cynulleidfa Darged

3. Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at ffermwyr da byw sy'n cymysgu ychwanegion i fwydo anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd (h.y. da byw sy'n cael ei ffermio) ar eu tir eu hunain. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i awdurdodau gorfodi.

Diben y Canllawiau

4. Mae'r canllawiau 'cwestiynau ac atebion' hyn yn rhoi cyngor ar y gweithdrefnau y dylai ffermwyr da byw sy'n cymysgu ychwanegion â deunyddiau bwyd anifeiliaid i fwydo anifeiliaid ar eu tir eu hunain eu dilyn. Cawsant eu llunio mewn ymateb i (i) geisiadau am ganllawiau o'r fath gan ffermwyr da byw a'r rheiny sy'n gyfrifol am archwilio cynlluniau sicrwydd ffermydd, a (ii) sylwadau gan archwilwyr o Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth yr Undeb Ewropeaidd (UE) ynghylch cydymffurfiaeth ffermwyr sy'n cymysgu ychwanegion ar y fferm â'r Rheoliad Bwyd Anifeiliaid.

Statws Cyfreithiol y Canllawiau

5. Mae'r canllawiau hyn wedi'u cynhyrchu er mwyn esbonio gofynion cyfreithiol Rheoliad CE 183/2005 sy'n gosod gofynion hylendid bwyd anifeiliaid fel y maent yn berthnasol i ffermwyr sy'n cymysgu ychwanegion i fwyd anifeiliaid i'w ddefnyddio ar eu fferm eu hunain. Fodd bynnag, nid oes modd rhoi sylw i bob sefyllfa ac efallai y bydd angen i randdeiliaid ystyried y ddeddfwriaeth ei hun i weld ym mha ffordd y bydd yn weithredol yn eu hamgylchiadau penodol hwy. Os dilynir y canllawiau hyn, bydd yn helpu rhanddeiliaid i gydymffurfio â'r gyfraith. Mae'n bosibl y bydd ffermwyr da byw sydd ag ymholiadau penodol yn dymuno ceisio cyngor eu hawdurdod gorfodi lleol, sef adran safonau masnach yr awdurdod lleol yn y Deyrnas Unedig gan amlaf. Yng Ngogledd Iwerddon, bydd angen ceisio cyngor gan yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.

Y Canllawiau

Beth yw cynhyrchion ychwanegion a rhag-gymysgeddau?

6. Mae ychwanegion bwyd yn cynnwys sylweddau megis fitaminau, elfennau hybrin (e.e. copr, sinc) a chyffeithyddion. Mae'n rhaid i ychwanegion bwyd anifeiliaid gael eu hawdurdodi cyn y gellir eu defnyddio mewn bwyd anifeiliaid, ac mae'n rhaid eu defnyddio yn unol â gofynion eu hawdurdodiad. Mae canllawiau pellach ar yr ystod o ychwanegion awdurdodedig wedi'u cynnwys ym mharagraffau 5 a 6 isod. Rhag-gymysgeddau yw cymysgedd o ychwanegion, sy'n aml yn cynnwys sylwedd cludo (e.e. calchfaen) er mwyn helpu i wasgaru'r ychwanegion yn y gymysgedd bwyd anifeiliaid.

7. Mae ychwanegion bwyd anifeiliaid a rhag-gymysgeddau yn wahanol i fwyd anifeiliaid cyfansawdd. Mae bwydydd cyfansawdd yn gymysgedd o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid megis gwenith, barlys, blawd hadau rôp, gwaddod cnewyllyn palmwydd a mwynau (e.e. mangesiwm ocsid). Mae'n bosibl y bydd bwydydd anifeiliaid cyfansawdd sydd wedi'u prynu'n allanol wedi'u labelu fel bwyd anifeiliaid cyflawn neu fwyd anifeiliaid cyflenwol megis bwyd anifeiliaid mwynol. Gall bwyd anifeiliaid cyfansawdd gynnwys ychwanegion neu beidio.

Sut alla i adnabod cynhyrchion ychwanegion a rhag-gymysgeddau?

8. Mae cynhyrchion o'r fath yn destun labelu gorfodol. Mae'n rhaid i labeli cynhyrchion ag ychwanegion ddatgan enw'r ychwanegyn a'i rif awdurdodi, ac mae'n rhaid i labeli rhag-gymysgeddau gynnwys y gair "rhag-gymysgedd" (*premixture*). Mae modd gwahaniaethu'r cynhyrchion hyn oddi wrth bwyd anifeiliaid cyfansawdd gan fod yn rhaid i labeli bwyd anifeiliaid cyfansawdd gynnwys y disgrifiad "bwyd anifeiliaid cyfansawdd", "bwyd anifeiliaid cyflenwol", neu "fwyd anifeiliaid mwynol" fel sy'n briodol.

Ble mae cael gafael ar restr o ychwanegion bwyd anifeiliaid awdurdodedig?

9. Caiff ychwanegion bwyd anifeiliaid awdurdodedig eu rhestru yng Nghofrestr Cymysgu ar y fferm – gofynion hylendid bwyd anifeiliaid

yr Undeb Ewropeaidd o Ychwanegion Bwyd drwy http://ec.europa.eu/food/food/animalnutrition/feedadditives/registeradditives_en.htm. Gallwch ddefnyddio'r gofrestr hon i wirio a yw ychwanegyn wedi'i awdurdodi a beth yw ei amodau defnydd e.e. lefelau uchaf a ganiateir neu i'w ddefnyddio ar gyfer rhywogaethau anifeiliaid penodol yn unig. I sefydlu hyn, mae'n rhaid i chi wirio'r Rheoliadau awdurdodi, sydd wedi'u cynnwys fel dolenni yn y Gofrestr.

10. Mae'r grwpiau o ychwanegion y mae ffermwyr yn eu defnyddio amlaf mewn modd uniongyrchol fel cynhwysyn i gymysgu i fwyd anifeiliaid yn cynnwys:

- fitaminau;
- elfennau hybrin: haearn, iodid, cobalt, copr, manganês, sinc, molybdenwm, seleniwm (dylid nodi nad yw pob cyfansoddyn o'r elfennau hyn wedi'u hawdurdodi);
- wrea;
- cyffeithyddion (e.e. asid propionig);
- ychwanegion silwair (asiantau silwair).

11. Mae grwpiau eraill o ychwanegion eraill y gellir eu defnyddio yn cynnwys:

- gwrthocsidyddion;
- emwlsyddion, sefydlogion, tewychwyr, asiantau gelio, a rhwymwyr;
- asiantau gwrthdalpio;
- rheoleiddwyr asidedd (e.e. sodiwm bicarbonad);
- annatureiddwyr;
- lliwiau;
- cyflasynnau;
- asidau amino, eu halwynau ac analogau;
- ychwanegion gwella treuliadwyedd (ensymau);
- sefydlogion fflora'r coluddion (micro-organebau gan gynnwys burum);
- sylweddau sy'n effeithio'n gadarnhaol ar yr amgylchedd;
- sylweddau sy'n rheoli halogiad radioniwclid;
- cocsidiostatau a histomonostatau.

12. Ni ystyrir sylweddau megis sodiwm hydrocsid a ddefnyddir i feddalw grawn fel ychwanegion bwyd, yn hytrach, cânt eu hystyried fel "triniaethau".

13. I gael rhagor o wybodaeth am ychwanegion bwyd anifeiliaid, gweler gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd: <http://www.food.gov.uk/business-industry/farmingfood/animalfeed/animalfeedlegislation/animalfeedaddfaq/>

Pa ofynion y mae'n rhaid i ffermwyr sy'n cymysgu bwyd anifeiliaid gydymffurfio â nhw?

14. Mae'n rhaid i ffermwyr sy'n prynu ychwanegion bwyd anifeiliaid (heblaw asiantau silwair) a chynhyrchion rhag-gymysgedd ac sy'n eu cymysgu'n uniongyrchol (h.y. yn syth) â bwyd anifeiliaid (porthiant, silwair, gwellt, grawnfwydydd ac ati) gydymffurfio ag Atodiad II Rheoliad CE Hylendid Bwyd

Anifeiliaid (183/2005). Mae hefyd rhaid iddynt gyflwyno system rheoli bwyd anifeiliaid sy'n seiliedig ar egwyddorion Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP). Mae HACCP yn ddull systematig o reoli diogelwch. Ystyrir bod cymysgu ychwanegion bwyd a rhag-gymysgeddau yn peri risg uwch o'i gymharu â gweithgarwch arall.

15. Mae'n rhaid i ffermwyr sy'n cymysgu bwyd anifeiliaid cyfansawdd â bwyd anifeiliaid arall (porthiant, silwair ac ati) gydymffurfio ag Atodiad I Rheoliad 183/2005, ac felly nid oes angen iddynt gyflwyno HACCP ond mae'n rhaid iddynt roi mesurau ar waith i reoli peryglon bwyd anifeiliaid yn gyffredinol. Mae Atodiad I yn ei gwneud yn ofynnol bod gweithredwyr yn sicrhau y caiff bwyd anifeiliaid a gaiff ei gynhyrchu a'i ddefnyddio ei ddiogelu rhag cael ei halogi a'i ddirywio, a hefyd eu bod yn cadw cofnodion penodol (e.e. o fwyd anifeiliaid a brynwyd ac a ddefnyddiwyd). Mae'r gweithgarwch hwn yn cynnwys cymysgu bwyd anifeiliaid cyfansawdd sy'n cynnwys ychwanegion a bwyd anifeiliaid cyfansawdd nad ydynt yn cynnwys ychwanegion. Mae'n cynnwys gwasgaru bwyd anifeiliaid mwynol ar fwyd anifeiliaid ac ati. Mae'n rhaid i ffermwyr sy'n defnyddio asiantau silwair hefyd gydymffurfio â gofynion Atodiad I y Rheoliad. Mae canllawiau pellach ar weithredu Atodiad I ar gael yn y *Cod Ymarfer ar gyfer Bwydo ar y Fferm*, gweler

<http://assurance.redtractor.org.uk/resources/000/576/439/>

Industry_Feed_Code_of_practice_April_2010.pdf (Saesneg yn unig)

Pa ofynion sy'n berthnasol i ffermydd nad ydynt yn cymysgu bwyd anifeiliaid?

16. Mae'n rhaid i ffermydd sydd, er enghraifft, yn prynu bwyd anifeiliaid cyfansawdd ond ddim yn ei gymysgu â bwyd anifeiliaid arall, neu sy'n defnyddio cnydau a dyfir ar y fferm fel bwyd anifeiliaid, gydymffurfio â gofynion Atodiad I y Rheoliad Hylendid Bwyd Anifeiliaid. Ymhlith pethau eraill, mae Atodiad I yn cynnwys amodau sy'n cynnwys storio ar y fferm a chludo.

Pa ofynion sy'n berthnasol i ffermwyr sy'n gwerthu bwyd anifeiliaid wedi'i gymysgu?

17. Mae'n rhaid i ffermwyr sy'n cynhyrchu unrhyw fwyd anifeiliaid wedi'i gymysgu, sy'n defnyddio ychwanegion/rhag-gymysgeddau bwyd anifeiliaid neu sy'n cynhyrchu bwyd anifeiliaid cyfansawdd y maent yn ei gyflenwi i fusnesau bwyd anifeiliaid eraill, weithredu gofynion Atodiad II a chyflwyno system rheoli bwyd anifeiliaid sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y defnyddir offer pwyso, dyfeisiau mesur a pheiriannau cymysgu priodol er mwyn cynhyrchu cymysgeddau homogenaidd. Mae'n rhaid cynnal gweithrediadau yn unol â gweithdrefnau ysgrifenedig hefyd.

Beth yw'r gofynion cymeradwyo/cofrestru ar gyfer ffermydd?

18. Mae'n rhaid i ffermwyr sy'n cymysgu ychwanegion bwyd anifeiliaid neu fwyd anifeiliaid cyfansawdd sy'n cynnwys ychwanegion gael eu cofrestru neu eu cymeradwyo gan eu hawdurdod gorfodi. Mae cofrestru'n golygu rhoi busnesau ar

restr o sefydliadau gydag arolygiadau dilynol. Yn y Deyrnas Unedig, adrannau safonau masnach awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gofrestru ffermydd. Mae'n bosibl bod rhai ffermydd eisoes wedi'u cofrestru at ddibenion hylendid bwyd. Nid oes angen cofrestru ddwywaith os ydych chi hefyd yn cymysgu bwyd anifeiliaid, ond dylai ffermwyr roi gwybod i'r awdurdod lleol os ydynt yn bwriadu cynnal gweithgarwch newydd. Mae cymeradwyaeth yn golygu bod yr awdurdod gorfodi'n cynnal ymweliad arolygu ymlaen llaw cyn y caniateir i safle weithredu.

19. Mae ffermydd sy'n cymysgu bwyd anifeiliaid gyda hyrwyddwyr twf nad ydynt yn wrthfotig, cocsidiostatau a histomonostatau (gan gynnwys bwyd anifeiliaid cyfansawdd sy'n cynnwys yr ychwanegion hyn) yn destun cymeradwyaeth. Yn y Deyrnas Unedig caiff hyn ei gynnal gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol. I gael rhagor o wybodaeth gallwch gysylltu â Thîm Arolygu ac Ymchwilio'r Gyfarwyddiaeth drwy 01932 338475, anfon e-bost at inspections@vmd.defra.gsi.gov.uk neu fynd i http://www.vmd.defra.gov.uk/mswd/feedingstuffs_guidance.aspx. (Saesneg yn unig) Yng Ngogledd Iwerddon, Cangen Arolygu Bwyd Amaethyddol yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig sy'n gyfrifol am gofrestru a chymeradwyo. Gallwch gysylltu ar 028 9052 5001 neu e-bostio Afib.admin@dardni.gov.uk.

20. Mae hefyd yn rhaid i ffermydd da byw ddilyn cod ymarfer bwydo anifeiliaid (Atodiad III Rheoliad CE 183/2005). Mae hyn yn cynnwys gofynion mewn perthynas â phori, storio, dosbarthu ar y fferm, darparu bwyd a dŵr, a staff. Mae canllawiau ar y gofynion hyn hefyd ar gael yn y *Cod Ymarfer ar gyfer Bwydo ar y Fferm* a gafodd ei grybwyll ym mharagraff 10 uchod.

Pwyntiau eraill

21. Mae awdurdodau gorfodi yn cadw rhestrau o fusnesau bwyd anifeiliaid, gan gynnwys ffermydd, sydd wedi'u cofrestru dan y Rheoliad Hylendid Bwyd Anifeiliaid, gan gynnwys pa weithgareddau maent yn eu cyflawni. Y gweithgareddau sy'n berthnasol i gymysgu ar y fferm yw:

- R4 -- Gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid cyfansawdd i'w gyflenwi i fusnesau bwyd anifeiliaid eraill;
- R10 -- Cymysgu bwyd anifeiliaid ar y fferm, gydag ychwanegion a rhag-gymysgeddau at ddefnydd y fferm ei hun;
- R11 -- Cymysgu bwyd anifeiliaid ar y fferm, gyda bwyd anifeiliaid cyfansawdd sy'n cynnwys ychwanegion at ddefnydd y fferm ei hun.

Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys:

- R13 -- Ffermydd da byw (gan gynnwys ffermydd pysgod) nad ydynt yn cymysgu bwyd anifeiliaid (e.e. defnyddio silwair neu fwyd anifeiliaid cyfansawdd heb gymysgu);
- R14 -- Ffermydd â'r sy'n tyfu neu werthu cnydau fel bwyd anifeiliaid.

22. Wrth wneud cais i gofrestru, dylai ffermwyr nodi'r holl weithgareddau uchod maent yn eu cyflawni, hyd yn oed os mai o dro i dro yn unig maent yn eu cyflawni. Mae ffurflen gais ar gael ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd drwy <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/multimedia/pdfs/fhr-application-welsh-april->

12.pdf. I ddod o hyd i'ch Adran Safonau Masnach, gweler <http://www.tradingstandards.gov.uk/products/publications-directories.cfm>.

23. Yng Ngogledd Iwerddon, gellir cael ffurflen gan DARD AFIB drwy'r manylion cyswllt a nodir ym mharagraff 14 uchod.

Deddfwriaeth Genedlaethol

24. Mae Rheoliadau'r CE yn weithredol yn uniongyrchol ym mhob Aelod-wladwriaeth, ond er mwyn eu gwneud yn weithredol yn y DU roedd angen cyflwyno rhai rheolau cenedlaethol. Yn achos Rheoliad CE 183/2005, cafodd pwerau gorfodi cenedlaethol (e.e. cosbau a throsteddau) a gweithdrefnau ar gyfer ceisiadau ar gyfer cofrestru a chymeradwyo eu cyflwyno yn Rheoliadau (Hylendid a Gorfodi) Bwyd Anifeiliaid 2005, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2006. Caiff darpariaethau Rheoliad CE 1831/2003 eu gweithredu gan Ran 3 Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid 2010, a ddaeth i rym ar 23 Tachwedd 2010. Ceir deddfwriaethau ar wahân ond cyfatebol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

25. Mae teitlau a rhifau llawn y deddfwriaethau hyn fel a ganlyn:

- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005 (O.S. 2005 Rhif 3368) (W 265)
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Lloegr) 2005 (O.S. 2005 Rhif 3280)
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Yr Alban) 2005 (O.S.A 2005 Rhif 608)
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Gogledd Iwerddon) 2005 (Gofyniad Statudol 2005 Rhif 546)
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Lloegr) 2010 (O.S. 2010 Rhif 2503)
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2010 (O.S. 2010 Rhif 2652) (W 220)
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2010 (O.S.A. 2010 Rhif 373)
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon) 2010 (Gofyniad Statudol 2010 Rhif 355)

26. Mae'r Rheoliadau hyn ar gael ar-lein drwy <http://www.legislation.gov.uk/browse/uk> (dylech nodi blwyddyn a rhif y mesur yn y blychau chwilio ar frig y dudalen, ac yna dewis y math o deddfwriaeth o'r ddewislen ar yr ochr). Mae Rheoliadau CE 1831/2003 ac 183/2005 ar gael ar-lein (yn y drefn honno) drwy <http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=CONSLEG:2005R0183:20090420:EN:PDF> ac <http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=CONSLEG:2003R1831:20050325:EN:PDF>. Mae manylion deddfwriaethau bwyd anifeiliaid eraill ar gael ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd drwy <https://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/diwydiant/ffermio/bwydanif/deddfwriaeth>

Manylion Cysylltu

Cymru – Jonathan Davies, rhif ffôn 029 20 678905, e-bost <jonathan.davies@food.gov.uk>.

Lloegr – Cangen Bwyd Anifeiliaid a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid: William Francis, rhif ffôn 020 7276 8471, e-bost <william.francis@food.gov.uk>.

Yr Alban – Hylendid a Diogelwch Cyffredinol Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Claire Moni, rhif ffôn 01224 285158, e-bost <claire.moni@food.gov.uk> neu Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid: Jacqui Angus, ffôn 01224 285175, e-bost <jacqui.angus@foodstandards.gsi.gov.uk>.

Gogledd Iwerddon – Uned Cynhyrchu Cynradd: Anthony Higgins, ffôn 028 9041 7761, e-bost <anthony.higgins@food.gov.uk>; neu Gerard Smyth, ffôn 028 9041 7760, e-bost <gerard.smyth@foodstandards.gsi.gov.uk>.